YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1893. [RHIF 63

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

TADOLDEB DUW.*

MAE ysgrifeniadau Paul naill ai wedi eu camddeall, neu ynte wedi eu camarfer yn druenus. Bwriadodd yr apostol hwynt i amlygu cariad cyffredinol ac anmhleidiol y Tad: mae dynion wedi eu harfer i osod Duw allan fel Bôd cul a phleidiol. Amcan Paul oedd agor teyrnas nefoedd led y pen i bob dyn: dywed dynion fod yr hyn a ddysgodd yn cau y deyrnas hono ar y lluaws ac yn ei hagor i'r ychydig. Anadla yr epistolau yr yspryd mwyaf rhyddfrydig, ac etto, yr ydys wedi tynu o honynt yr help mwyaf i annyoddefgarwch penboeth. Bu Paul fyw er tynu i lawr ganolfuriau y gwahaniaeth rhwng Iuddew a chenedlddyn, ac er meithrin cariad brawdol rhwng holl ddynolryw; ond y mae dynion wedi ei wneyd i ategu y syniad gwrthun fod y Tad Mawr wedi arfaethu rhai o'i blant i iachawdwriaeth, tra mae wedi tynghedu ereill i wae tragwyddol; maentumiant i Paul ddysgu fod derbyniad o gredo nas gellir ei deall, yn hanfodol i iachawdwriaeth dyn, ac fod pawb a wrthodant y gyfryw gredo yn elynion Duw ac yn annheilwng o le yn Eglwys Crist.

Dengys epistolau Paul y perygl o osod y llythyren yn lle yr yspryd yn y Datguddiad Dwyfol, ac y dylid darllen yr Ysgrythyrau drwy help ein Rheswm a goleuni ein Cydwybod. Nid ydynt erioed etto wedi eu hastudio gyda'r deall a'r gonestrwydd hyny a arfera dynion wrth ddarllen llyfrau ereill. O ganlyniad, mae cam annhraethol wedi ei wneyd â chenadwri brydferth yr apostol, a gwneir hi i gefnogi cyfundrefn o athrawiaeth y mae rheswm a chydwybod yn cilio rhagddi, ac i droi Cristionogaeth, o fod yn Efengyl o newyddion da i gyrau'r byd, i fod y neges dristaf a draethwyd erioed.

* Cymharer *Perfect Life* Channing.

Amcan mawr Paul wrth ysgrifenu ei epistolau oedd amddiffyn hawl ysprydol y teulu dynol yn erbyn y penboethni cul a ddangosid gan yr Iuddewon—dangos fod Duw yn Dad i bawb, ac nad oedd wedi cyfyngu ei hun i wlad Judea nac i'r Deml yn Jerusalem; i'r Iesu ddyfod i achub, nid un genedl fechan, ond yr holl fyd, ac fod bendithion anfeidrol yr Efengyl yn agored i bawb yn gyffredinol. Dyma y "Dirgelwch" mawr y sonia Paul am dano: nid rhyw ddogma annealladwy, ond bwriad trugarog Duw i gasglu yr holl deulu dynol yn un yn Nghrist Iesu, i dori i lawr bob rhaniad rhwng cenedloedd a dosparthiadau, ac i uno dynion o bob llwyth ac iaith i addoli yr un Tad, yr Hwn sydd yn y nefoedd. Cofier y gwirionedd mawr hwn, ac mae genym agoriad i ysgrifeniadau Paul: hebddo mae trysorau cyfoethog "Apostol mawr y cenedloedd" yn llyfr wedi ei selio.

I. Mae Duw yn "Dduw y cenedloedd." Er deall ystyr yr ymadrodd hwn, dylid ystyried yr amgylchiadau dan y rhai yr ysgrifenwyd ef. Ffieiddbeth i'r Iuddew oedd y cenedloedd. Halogedig oedd cydfwyta â hwynt: galwai hwynt yn gwn. Yr oedd holl amgylchedd ieuenctid yr Iuddew yn elyniaethus i'r byd paganaidd. Daliai mai ei Dduw ef yn unig oedd Duw, ac yn nghanol holl ddyoddefiadau ei bobl, cysurid ef gan y meddwl o'u perthynas arbenig â'r Bod Dwyfol, ac o'u rhagoriaeth ar bawb ereill. Treuliai ei fywyd yn y gobaith o ddyfodiad buan y Messia i ymddial am ei helbulon, ac i ddarostwng yr holl deyrnasoedd wrth ei draed. Gormod gorchwyl i'r Iuddew oedd dyfod i lawr o'i binacl uchel o wag-ogoniant, a chofleidio y cenedloedd dirmygedig hyn fel ei frodyr, a chydnabod fod ganddynt gymmaint hawl ag yntau i gariad Duw ac i fendithion teyrnas y Messia. Mae prydferthwch moesol annghymharol yn ngeiriau syml Paul, er iddynt yn ddiamheu roddi ergyd marwol i falchder ei bobl, fel y sychedent am ei waed, ac y dylynent ef i bob man gyda'r amcan o roddi terfyn ar ei fywyd.

Yr ydym ni heddyw yn teimlo gwirionedd yr ymadrodd hwn, ac yn cael rhyw ateb iddo yn ein calonau ein hunain. I'r Iuddewon ymddangosai y cenedloedd paganaidd wedi ymbellhau gymmaint oddiwrth Dduw fel nad oedd modd dychwelyd. Ond nid ymedy y Tad cariadlawn byth â'i blant. Nid oes un plentyn yn cael ei annghofio ganddo. Yn fydrwydd oedd ceisio cyfyngu ei gariad i gongl fechan o'i fydysawd, oblegyd gwlad ddinod oedd Judea mewn cymhariaeth i wledydd ereill. A oedd yn bossibl carcharu y Presenoldeb Tragwyddol i le mor ddistadl â hwn? Ai i nifer bychan o bobl ddewisedig yr amlygodd Duw ei gariad? Mae Duw wedi bod yn agos at ei blant bob amser, er na wyddent hyny. Nid oes un genedl wedi bod heb ei datguddiad—goleuni o'r nef yn disgyn ar eneidiau pob talaeth—cyfraith Duw wedi ei hysgrifenu yn nghalonau y mwyaf anwybodus, a'r Tad yn amlygu ei Hun iddynt mewn cyfiawnder a daioni. Ni chaed un genedl etto, nad mor isel, yn hollol amddifad o'r goleuni hwn. Fe ŵyr yr anwar mwyaf digwrtaith y gwahaniaeth rhwng da a drwg; yn mhob enaid dynol y mae llais sydd yn sibrwd am y da, proffwyd a barnwr sydd yn cyfeirio at ad-daliad yn y diwedd—cydwybod na ellir byth ei dystewi yn hollol. Yn y llwythau iselaf mae rhyw gydnabyddiaeth o allu uwch, rhyw gip-

olwg o Fywyd Dyfodol; ac yn yr oll ni a welwn Dduw yn gweithio yn yr enaid, er ei waredu. Mae Duw yn ymdemlu mewn llawer calon na wyddai erioed ei enw. Na chredwn y syniad ofnadwy fod y nifer mawr ag sydd yn awr yn nghanol caddug paganiaeth yn wrthodedigion ei gariad. Mae Efe yn gofalu am bawb, ac mae pawb yn blant iddo, yn anwyliaid ei serch, ac yn frodyr i ninau.

Fod Duw yn "Dduw i'r cenedloedd" ni a welwn oddiwrth y cynnydd y mae dynion wedi wneyd yn ystod y canrifoedd. I bob cenedl y rhoddwyd dawn arbenig, ffurf neillduol o wirionedd Duw, ac mae pob cenedl, i'r hon yr ymddiriedwyd rhyw rinwedd uchel, yn brawf fod Duw yn cawodi ei rasusau puraf hyd y nod ar bobl a ymddangosent bellaf oddiwrtho. Nid oedd Socrates, pan yn dewis marw yn hytrach nâ bod yn anffyddlon i'r gwirionedd a roddodd Duw iddo, yn ddim ond cysgod o'r aberth godidog hwnw i wirionedd a fu farw yn Mhalestina er rhoddi bywyd i'r byd. Mae pob cynneddf odidog sydd wedi dyrchafu gwledydd y byd, ac wedi eu gwneyd yn enwog, yn brawf fod Duw yn "Dduw i'r cenedloedd"—yn eu hysprydoli yn y cyfeiriad hwnw.

Amcan mawr Duw, wrth dywallt bendithion ysprydol ar yr Iuddewon rhagor rhyw genedl arall, oedd parotoi y ffordd er cyfranu daioni anfeidrol i'r hiliogaeth ddynol. Galwyd Abraham fel y byddai i holl dylwythau y ddaear gael eu bendithio yn ei had. Yr oedd Moses yn rhagredegydd i'r Iesu, ac Iuddewiaeth yn arloesi'r ffordd ar gyfer Cristionogaeth. Nid oes dim yn hanes yr Iuddewon yn dangos eu bod yn anwyliaid Duw. Buont yn anffyddlon i'r genadwri a roddes Duw iddynt, gwrthodasant gydnabod y cenedloedd fel eu brodyr, a daethant, fel pe b'ai, yn wrthodedigion Duw, yn llwyth gwasgaredig a dirmygedig gan bawb. Mae'r athrawiaeth fawr o Un Gwir Dduw, y buont hwy yn broffwydi o honi, wedi ymledu dros yr holl fyd, a thrwyddynt y mae y Tad Cyffredin wedi amlygu ei hun yn Dduw i'r cenedloedd hefyd.

Ai nid ydym ni, fel yr Iuddew gynt, yn rhy barod i ddyrchafu ein hunain uwchlaw ein brodyr llai eu breintiau yn ein hymyl ni, a chredu fod y paganiaid hyd y nod yn awr yn wrthddrychau digofaint Duw. Credir fod pawb ydynt wedi marw y tu hwnt i swn yr Efengyl wedi eu collfarnu am byth, ac oddiar y dyb hon y tardda ein holl ymdrechion ni ar y maes cenadol—fod Duw y tu faes i derfynau Cred yn Farnwr llym, ac nas gall y bobl ddal unrhyw gymundeb â'r nefoedd mewn rhanau ereill o'r byd. Pwy all gredu fod y Duw da yn caru yr ychydig ar draul esgeuluso y llawer. Profiad Paul yw, a dyma wirionedd sylfaenol yr Ysgrythyr—fod Duw yn caru pawb o bob gradd, o bob cenedl, o bob sefyllfa a chymmeriad—ei fod, yn ei hanfod, yn Gariad Anmhleidiol a Chyffredinol. Dysgir y gwirionedd ardderchog hwn gan holl weithredoedd y Creawdwr yn Anian, a dylem barchu gweithredoedd Duw, am fod yr un awdurdod iddynt ag sydd i'w air. Rhaid i'w weithredoedd a'i air fod bob amser mewn cydgordiad perffaith. Dysg y bydysawd fod Duw yn Dduw pawb, oblegyd ni welir un arwydd o bleidgarwch yn Natur, neu fod y Bod Anfeidrol yn ffafrio rhai ar draul esgeuluso ereill. Yr hyn y gosodir pwys arno yn natur yw, fod Duw yn llywodraethu trwy ddeddfau cyffredinol, y rhai ydynt

wedi eu sefydlu er lles pawb. Ai ni ddenfyn yr haul ysplenydd ei belydrau claerion i'r bwthyn yn gystal ag i'r palas? Ai nid yw yn gogoneddu yr un olygfa arddunol ar gyfer pob llygad? Mae natur yn anmhleidiol yn ei gwenau, ac yn anmhleidiol yn ei gwg. Mae gan Dduw un ddeddf, un cariad ar gyfer pawb.

Ond nid natur yw yr amlygiad goreu o Dduw. Yn yr enaid dynol mae y Tad Doeth yn dadlenu ei hun o oes i oes, heb neb yn cael ei gau allan oddiwrth ei ddylanwad. Nid oes neb nad yw yn llefaru wrtho, na chartref nad yw Efe yn myned iddo gyda'i roddion dewisol. "O ganol bwthynod tlodi, o ganol llwybrau pechod a drygioni, o ganol tawelwch bywyd neillduedig, o ganol twrf a therfysg masnach, y mae dynion enwog yn cyfodi, sydd wedi tywys, wedi dyddanu, goleuo ac adnewyddu'r byd. O ganol cwch pysgota ar lyn fechan Galilea y galwyd gweinidogion mwyaf dylanwadol Duw i grefydd gyffredinol. Mae Duw yn mhob oes a gwlad o'r byd yn gweithredu ar yr enaid dynol, ac mae dynion o bob llwyth ac iaith yn derbyn ei ysprydoliaeth."

Nid yw Duw yn Dduw i'r cyfoethog yn unig, ond i'r tlawd hefyd; nid yw yn carcharu ei hun yn y palasdy yn nghyd â'i fawredd a'i wychder, ond y mae yn gwneyd ei drigfan yn mha le bynag y mae'r galon ddynol yn edrych i fyny mewn hiraeth dwys at Dad yr holl ysprydoedd. Mae gwers i ni o hyd i'w dysgu am ddoethineb Duw oddiwrth y preseb gynt yn Methlehem, lle y ganed Ceidwad y bywyd. Yr ydym yn clodfori genedigaeth Crist yn ein heglwysi; mae beirdd yn canu am dano; mae paentwyr yn ei baentio; ond a ydym ni yn cofio am dano pan yn cwrdd â beger ar y stryd, neu pan yn myned heibio'r caban, gyda'i ffenestri tyllog a'i furiau myglyd?

Mae Duw hefyd yn Dduw, nid i'r da yn unig, ond i'r drwg yn ogystal. Mae yn caru ac yn anwylo yr hwn sydd wedi cefnu fwyaf arno—yn Dad nad oes un mab y golledigaeth ganddo, ac yn un sydd yn dywedyd wrth ei blentyn mwyaf gwrthodedig, "Dere'n nes."

Geilw Cristionogaeth arnom i gydnabod yn mhawb dynion yr un egwyddor anfarwol, yr un hedyn o Ddwyfoldeb. Yr yspryd hwn o ddynoliaeth gyffredinol yw enaid ein crefydd ni, er na theimlir ef genym ond i fesur gwan, a dyna y rheswm nad oes ond cyn lleied o fendithion Cristionogaeth yn ymddangos yn y byd. Yr ydym yn fyr o *ddynoliaeth*. Siaradwn am dano, proffeswn ef, ond gwrthwynebwn ei egwyddorion hanfodol mewn bywyd a chymmeriad. Yr ydym yn gwadu mewn ymarferiad berthynas odidocaf dyn, sef plentyn Duw. Ond pan y dygir y meddylddrych hwn adref fel sylwedd mewn bywyd cymdeithasol, bydd agwedd arall ar fyd. Bydd pawb i ymddwyn y naill at y llall fel brodyr, i addoli y Tad yn ei blant ar y ddaear, ac i hwylusu dyfodiad Cristionogaeth burach, yr hon a welir nid mewn proffes yn gymmaint ag mewn gair ac mewn gweithred. Gwnaed pob un ei ran i ddwyn oddiamgylch dymp y cyfnod mwy dysglaer hwn.

[Fe genfydd y darllenydd nad ysgrifenwyd yr ysgrif hon gan yr hwn a arfaethwyd ar ei chyfer: lluddiwyd ef, ac yn hytrach nâ thori y gadwyn, ymgymmerwyd â'r gwaith yn ei le, a hyny ar yr unfed awr ar ddeg. Mawr hyderwn na fydd bwlch arall.—Gol.]

TELYNOR GLYN NEDD.

(O'r "Guide Book to the Vale of Neath")

O graig i scwd* ar grwydrol daith, **Waterfall.*
Y buom er pan dorodd gwawr,
A thybiem gallai'r delyn 'nawr,
Derfynu'r dydd mewn melus waith.

Rhowd cais i'r henwr foddio'n chwant,
A dwyn ger bron ei delyn gain,
Ond tristwch rwystrai'r felus sain,
A'r taw orphwysai ar bob tant.

Ei blentyn mwyn, ei seren ddydd,
Merch hoff ei galon, dirion dlos,
Machludo wnaeth ei dydd mewn nos,
A'r hen delynor oedd yn brudd.

Hi garai'r tanau pan yn fyw—
Byw oedd pan dd'weddaf canodd hwy,
Ond 'nawr nis gall eu cyffwrdd mwy,
Ac nis gall odde'u swn i'w glyw.

Y bydol fardd ddadgana'i wae,
Ond galar dyfnach yma gawn,
'Does lafar draetha'th gur yn iawn—
A'th delyn ar yr helyg mae.

Delynor y mynyddig wlad—
Er cryfed swn y gwynt a'i gri,
Mil mwy cynhyrfus d'alar di,
Ar ol dy fwyn angyles fad.

T.C.U. 1890. [S.W. 1818.]

[Y telynor, wrth bob tebyg, oedd un Hywel Lewis, yr hwn a ddesgrifir fel bardd a thelynor, ac yn byw tua Phont-nedd-Fechan. Bu iddo fab o'r enw Thomas Hywel Lewis. O bossibl fod rhywun yn mhlith eich darllenwyr all ddywedyd rhagor.—T.C.U.]

Rheswm Da.—Gofynwyd i Dr. E. sut yr oedd efe wedi uno a sect wahanol i'w dad. Hawdd ddigon esponio hyny, meddai'r doctor dysgedig. Yr oedd fy nhad yn myned i un capel a fy mam i gapel arall. Yr oedd rhai o'r plant yn myned gydag un weithiau, a chyda'r llall bryd arall. Ond nid oedd fy nhad byth yn myned â dim yn ei boced, tra'r oedd fy mam yn wastad yn cario bara a chaws—fel hyny, aethum i ar ol y bara a chaws.

MR. GLADSTONE A'R BLAID GYMREIG.

Swn brwydro sydd i'w glywed y dyddiau hyn o'r Senedd yn Llundain, —swn gwrthryfel yn y gangen Gymreig o'r blaid Ryddfrydig; ac nid rhyfedd, 'chwaith, fod yr aelodau Cymreig yn teimlo yn wrthryfelgar, oblegyd maent hwy a'u gwlad wedi eu diraddio yn enbyd yn ystod y dyddiau diweddaf hyn.

Addawyd rhoddi pwnc Dadgyssylltiad a Dadwaddoliad i Gymru yn ail i bwnc Ymreolaeth i'r Iwerddon. Gwnaeth y Cyngrair Rhyddfrydol Seisnig addaw hyny dair gwaith; ond ni chafwyd yr un addewid sier oddiwrth Mr. Gladstone, dim ond rhywbeth yn y niwl a'r mwg. Ac efe, meddir, rwystrodd roddi ein pwnc ni yn ail i'r Iwerddon. Nid oes dim cylla ganddo i gydio yn ngwar yr Eglwys Gymreig, gan ei fod yn gymmaint Eglwyswr, a chan ei fod yn d'od mor agos ato ef. Enbyd ydyw meddwl ein bod ni wedi bod mor ffyddlon i Mr. Gladstone, ac etto efe mor anffyddlon i ni. Ymddengys yn debyg fel y gwelir yn fynych yn y byd carwriaethol: bydd y bachgen bron a thori ei galon am y ferch, tra y ferch, o'r tu arall, ddim yn malio cocsen am dano ef. Felly yr ydym ni, fel Ymneilldnwyr a Rhyddfrydwyr Cymreig, wedi bod yn rhy gib ddall bleidiol i Mr. Gladstone,—wedi gwerthu gormod o'n barn bersonol am y fraint o gael ei wenau ef. Rhoddasom iddo fwyafrif rhagorol yn 1886, pan ddaeth allan ag Ymreolaeth i'r Iwerddon mor sydyn ac annysgwyliadwy; pan drodd Lloegr, a'r Alban hefyd, i raddau, yn ei erbyn, buom ni yn ffyddlon iddo; a dyma ydyw ein gwobr,—cael ein gosod ar ddiwedd araeth y Frenines—cael bod hyd y nod yn y fan hono, y tu ol i'r Alban, yr hon sydd wedi gwneyd y nesaf peth i ddim dros addfedu Dadgyssylltiad a Dadwaddoliad. Gan hyny, mae yn hen bryd i Ryddfrydwyr Cymru i edrych allan am well arweinydd na Mr. Gladstone; hyny yw, cael arweinydd gwirioneddol i'r blaid Gymreig, ie, cael un yn lle Mr. Stuart Rendel: ni wna efe ond bradychu y wlad a gynnrychiola, a bradychu ei safle fel Cadeirydd y blaid Gymreig, er mwyn ffafr Mr. Gladstone; ie, arweinydd yn lle Mr. Thomas Ellis; oblegyd gwerthodd ef ei enedigaethfraint fel arweinydd gwirioneddol y blaid Gymreig yn y Senedd am gawl coch mil punnau y Sais. Yn awr y gallwn werthfawrogi doethineb a chraffder y diweddar Mr. Parnell fel arweinydd y blaid Wyddelig, yn nacau, ar un cyfrif, i un o'i ganlynwyr ef i ddal na derbyn yr un swydd dan y Llywodraeth Seisnig; canys gwyddai na fyddai hyny yn ddim ond gwneyd cam a'i wlad, a rhwystro eu buddiannau i gael chwareu teg. Dyna felldith a gwendid i ni fel gwlad yn awr ydyw fod Tom Ellis yn y Weinyddiaeth, ac fod Mr. Rendel law yn llawes a Mr. Gladstone. Du a thywyll iawn ydyw ein rhagolygon fel gwlad, oddieithr fod i ni achubwr yn Mr. Lloyd George, Mr. David Thomas, Mr. S. T. Evans, neu ryw un o gynnrychiolwyr ieuanc Cymru. Gallwn I feddwl fod yn hen bryd i Gymru gael plaid annybynol ar bob plaid arall,—Rhyddfrydwyr yn gystal a Thoriaid,—hyd hyny, amlwg ydyw mai ychydig o gynnydd wna gwleidyddiaeth

Gymreig. Ni wna dysgwyl wrth Mr. Gladstone dalu y ffordd, na wna "wirione fach anwl;' dylid dweyd wrtho: "Ewch chwi i'ch ffordd, ac awn ninau i'n ffordd. Brwydr fydd hi o hyn allan; ni chymmerwn ein twyllo, a'n baldorddi, a'n diraddio, mewn modd annyoddefol." Ond tebyg mai dynion ffein, respectabl, a dim mwy o wroldeb ynddynt na chacwnen, ydyw cynnrychiolwyr Cymru; felly ni wnant ond plygu eu penau, fel brwynen, i'r ystorm hon etto. Rhyddfrydwyr Cymru, gweddiwch am waredigaeth rhag y fath giwaid ddyddim.

D. Ff. Dafis.

ADGOFION CYMRU FU.—PENOD ANGHOFIEDIG.

2. DYCHWELYD O GYMMANFA LLANGEITHO.

Yn y flwyddyn 1820, neu feallai flwyddyn cyn neu wedi, yr oedd adroddydd yr hanes ar y pryd yn yr ysgol gyda'r enwog Ddafis o Gastell Hywel, ac yn lletya gyda Mrs. Jones (Matty) New Inn, pan ddygwyddodd yr amgylchiad a ddesgrifir yn y llinellau canlynol. Mae y triugain mlynedd a deg ydynt wedi pasio oddiar hyny, wedi gweled gwelliantau mawrion yn mhob cyfeiriad, ac mewn dim yn fwy feallai nag yn ansawdd crefydd ac yspryd crefyddwyr. Erbyn heddyw gesyd pob enwad a phlaid bwys ar egwyddorion cyffredin moesoldeb, yn ogystal ag ar fanau ffydd, duwinyddiaeth a chrefydd. Cydnabyddir gwerth gweithredoedd da. Y pryd hwnw baich y pregethu oedd mai "bratiau budron" oedd gweithredoedd da, ond bellach cyfaddefir y pwysant o leiaf un wns a'r bymtheg i'r pwys. Felly nid ystyriwn y bydd achos i neb ddolurio oherwydd yr adroddiad canlynol. Y mae pob un a fu'n chwareu rhan yn yr amgylchiad wrth bob tebyg wedi myned, er ys llawer dydd, i ffordd yr holl ddaear.

Ar y dydd crybwylledig yr oedd lluoedd o'r trigolion o'r ardal islaw Llandyssul wedi pasio i fyny er y boreu bach ar eu ffordd i gapel Llangeitho, ac erbyn yr adeg y cyfeiria'r sylwadau canlynol ato yr oedd yn prysur nosi. Yr oedd adroddydd yr hanes gyda chyfaill wedi myned i fyny i'r siop (siop New Inn), a gedwid y pryd hwnw gan Mr. James Thomas, y boneddwr a werthai'r dybaco i Amnon (gweler y "Crwth"). Yr oedd siop Mr. Thomas yn hoff gyrchfan y myfyrwyr, gan fod y perchenog yn wr gwybodus a doeth, serchog a charuaidd, yn gynghorwr a chwmniwr gwerthfawr. Hynyna wrth basio.

Yn ddisymwth, clywyd yn y siop swn canu, yn dyfod o gyfeiriad Pylle Bryn. Wedi ychydig o ystyriaeth deallwyd mai'r pererinion oeddynt, ar eu dychweliad o gapel Llangeitho. Fel yr oeddynt yn dynesu yr oedd y moliannu yn dyfod yn fwy eglur, a'r canu Gogoniant a Haleliwia. Pasiwyd heibio i'r siop yn canu yn hwylus iawn, ond ar gyfer y New Inn aethant oll yn ddistaw glan. Erbyn hyny clywyd torf arall yn y pellder yn canu a moliannu fel y rhai o'r blaen, yn

pasio heibio i'r siop ac yn myned yn ddistaw ar gyfer y tafarn yn union fel y dorf gyntaf. Ar hyny, cofiwyd gan y ddeuddyn ieuanc fod Matty wrthi ei hun yn y ty, ac o bossibl mewn angen help. Felly brysiwyd i waered, a chafwyd pob ystafell yn y ty wedi eu meddianu gan y dyeithriaid, Matty yn gwbl ddinodded, a'r pererinion, yn rhy fyr eu hamynedd i ddysgwyl llawer, yn cymmeryd eu rhyddid i helpu eu hunain. Am ryw yspaid bu yno ffwndwr ffair ofnadwy, a'r gelyn yn y meddiant o'r holl wersyll.

O'r diwedd, daeth terfyn ar fwyta ac yfed y pererinion a chychwynasant ar eu taith adref. Wedi ymchwiliad cafwyd eu bod wedi gwaghau y cwpbwrdd bwyd, ac wedi gwaghau i raddau mawr (na ddyweder hyny yn Gath nac yn Ascalon)—y seler hefyd! Ond cofier fod hyn cyn cychwyniad y diwygiad dirwestol. Hyd y *thirties*, yr oedd yn beth digon cyffredin hyd y nod yn mhlith y Methodistiaid, i gadw casgen o ddiod i'r pregethwr yn nhy'r capel, fel y gallai gael dobyn bach cyn dechreu ar ei waith, a dobyn arall neu ddau ar ol gorphen. Wel, pan aeth Matty i arllwys ei phoced i'w ffedog, a gwnaeth hyny yn mhresenoldeb y ddeuddyn ieuanc, er cael gweled beth oedd ganddi i ddangos am yr oll, cafodd fod y cyfanswm yn rhywbeth tua thri swllt! Ond dyna, yr oedd Matty ei hunan wedi dianc a'i bywyd, ac yr oedd hyny dan yr amgylchiadau yn rhywbeth i fod yn ddiolchgar am dano, gan iddi fod mewn cyfyngder mawr, a braw o bossibl mwy na hyny. Nid rhyfedd fod gan Matty deimlad o ragfarn at y bobl a elent i Langeitho i'r Sasiwn Fawr.

Chwefror 14, 1893. P.P.

O DAD, RHO IM' DY LAW!

Fy Nhad! mae'r ffordd yn dywyll, ac wele gwmwl du
'N ymgasglu'n dew o f'amgylch; ac och, mi glywaf ru
Y daran gre'n adseinio trwy'r nen, gan beri braw
Ac aeth im' calon. Dyro, fy Nhad, i mi dy law;
Ac arwain trwy'r tywyllwch
I le o ddyogelwch
Dy blentyn gwan.

Mae'r dydd yn clau ddiflanu, a'r nos yn nesu sydd
Gan guddio'r oll a'i mantell. Fy ngolwg wan, ddi ffydd
Ganfydda ddrychiolaethau, ac ofnau fyrdd a mwy
Amgylchant fi. Fy Nhad, O arwain Dithau trwy'r
Tywyllwch sy'n f' amgylchu
I wlad y glan oleuni,
Dy blentyn gwan.

Mae'r daith yn hir, fy Nhad, ac O mae'r enaid mau
Am ryw le teg i orphwys, yn ddwfn a dwys ddyhau;

Tra'r ydwyf yma'n teithio trwy flin ac anial wlad,
Rhag crwydro, cadw fi; rho'th law, ac arwain O fy Nhad,
Yn gyflym ac yn ddyogel,
I borth y tangnef tawel,
Dy blentyn gwan.

Mae'r ffordd yn arw garw, a llawer draenen, Nhad,
A'm rhwygodd, ac yn flinion a gwaedlyd mae fy nhraed
Yn nodi'r ffordd y cerddaf; ac etto'th arch i mi
O hyd, yw cyrchu rhagof. Fy Nhad, O cymer di
Fy llaw, ac O arweinia
Yn ddyogel i'th orphwysfa,
Dy blentyn gwan.

Mae'r dyrfa yn lliosog a gwyll amheuaeth sy,
Ac ofnau a pheryglon o f' amgylch ar bob tu;
Gelynion a'm taer wasgant. Nis gallaf sefyll mwy,
Na theithio'n unig. Cymer, fy Nhad, fy llaw, a thrwy'r
Tywyllwch sy'n f' amgylchu,
O dwg i'r glan oleuni
Dy blentyn gwan.

Adsain. Q.Q.

DR. GRIFFITHS A'I GENADAETH YN Y GOGLEDD.

Tebyg genyf fod yr hanes yn y rhifyn diweddaf, dyfynedig o'r *Herald Cymraeg*, wedi tynu sylw a chynhyrfu ychydig ar deimladau y rhai a'i darllenasant. Nid ydyw pethau wedi cyrhaedd y *pitch* a wnaethant yn Llanelli gynt; ond y mae hyny o bossibl i'w briodoli i'r ffaith na ddarfu i'r gweinidogion yn Nghaernarfon eu hysian yn mlaen. Yr oedd y ddau weinidog yn Llanelli fel pe byddent mewn rhyw bryder yn nghylch "gobaith eu helw;" tra yn Nghaernarfon taflodd y gweinidogion eu dylanwad yn nghyfeiriad heddwch. Onid yw yn rhyfedd, er hyny, nad oes boddlonrwydd heddyw, bron ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, i Undodwr yn ol y ffordd y maent hwy (pobl ereill) yn eu galw yn heresi, i addoli a phregethu Duw eu tadau? Yn yr ymddyddan â'r wraig o Samaria, dywedodd yr Iesu fod y *gwir* addolwyr yn addoli'r *Tad*. Felly y mae'r Undodwyr yn ceisio gwneyd. Addoli'r Tad wnai'r Iesu, a dywedodd wrth ei ddysgyblion pan weddient i ddywedyd, "Ein Tad," &c. Ond yr Iesu saif uwchaf fel gwrthddrych addoliad gyda'r lluaws yn Nghaernarfon—yr Iesu, *dyn* a anwyd lai na dwy fil o flynyddoedd yn ol! Y mae hyny yn rhyfedd yn ngolwg pob Undodwr sydd yn gyfarwydd a'i Feibl. Ond dyna, y mae pobl Caernarfon yn addoli Trindod o bersonau, tra y gwyddom ni nad oes dim son am Drindod yn y Beibl. Athrawiaeth yw y Drindod a bigwyd i fyny gan y Cristionogion oddiwrth y paganiaid yn Alexandria

yn yr Aifft, mwy na 250 o flynyddoedd wedi marw Crist, a dywedai John Calfin fod y *gair* yn gas ganddo. Ond rhaid ymatal.

Nid yw y wasg yn cymmeradwyo y cythrwfl; yn wir, maent yn mhell oddiwrth hyny, oddieithr—rhaid wrth un eithriad. Mae *Gwalia* yn ddoniol. *Gwalia* cofier, papyr yr eglwys sefydledig yw, papyr y sect hono sydd wedi erlid yr Annghydffurfwyr o bob sect trwy'r blynyddau, o leiaf, pan feiddent. Papyr pobl oleuedig, pobl ddysgedig, pobl a ymffrostiant eu bod yn foneddigion; ond pobl yn ol mam Rhys Lewis, o fendigedig goffadwriaeth, nad oes a fynont fwyaf o honynt ryw lawer a chrefydd.

Ebe *Gwalia*: "Rhoddwyd y gwrandawiad mwyaf astud iddo, ac yr oedd yr adeilad yn annghyssurus o lawn. Baich ei genadwri oedd profi dynoliaeth Iesu Grist, gyda gwadu ei ddwyfoldeb, ac nad oedd sail i athrawiaeth y Drindod." Dyma enghraifft o'r modd y darfu i rywun o'r dorf geisio profi'r Drindod. Yn medyddiad Crist dywedai fod y Tad wedi llefaru o'r nefoedd, yr Yspryd Glan wedi disgyn megys colomen, y mab gyda Ioan yn y bedydd; fod yn amlwg fod y tri yn yr amgylchiad ar wahan. Yr oedd Ioan hefyd ar wahan, ac felly yr oeddynt yn bedwar! Rhywbeth rhyfedd ydyw *profion* yn ngolwg rhai Cristionogion.

A'r adroddydd rhag ei flaen, "Gyda chaniatad yr Undodwr, cynaliwyd cyfarfod amddiffynol i Dduwdod Crist. . . . Wedi canu penill nefolaidd, gweddiodd Mr. G. Gregory nes gwefreiddio y gynulleidfa. Teimlad pawb oedd fod y lle wedi ei droi o fod yn lle gwadiad Duwdod Crist i fod yn lle o addoliad iddo."—addoliad i Grist, sylwer, yn lle i'r Tad, yr hwn yw unig wrthrych teilwng addoliad. Beiid y gweinidogion o bob enwad am nad oeddynt yn bresenol. Tebyg genym fod ganddynt rheitiach gwaith na dyfod i aflonyddu cyfarfod y Dr. Griffiths.

Rhydd y *Rhedegydd* am Chwefror 11, adroddiad o ddarlith Dr. G. yn Ffestiniog ar "Y Duw a addolwn." "Yr oedd llu mawr yn nghyd. Sylwyd ar Dduw fel Creawdwr, Undod Duw, Cymmeriad Moesol Duw, Tadolaeth Duw, &c. Cynil iawn ydoedd o'i syniadau Undodaidd. Cafwyd ganddo ychydig pan yn trin am Undod a Thadolaeth Duw. Daliai nas gellid profi y Drindod o'r Beibl; nad oedd Iesu Grist na'r Apostol Paul yn dysgu Trindodiaeth. Yn sicr, rhaid fod gan y dyn hwn Feibl rhyfedd iawn." Barn y *Rhedegydd* yw nad oedd rhesymau Dr. G. wedi symmud gronyn ar uniongrededd hyd y nod y gwanaf ei ddeall oedd yn y lle. Cafodd y Dr. wrandawiad da, a mwy na all y "Rhedegydd" ddywedyd yw beth fydd effaith sylwadau Dr. Griffiths. Fe ddywed y *Rhedegydd* am Chwefror 18, fod y Dr. G. yn ei ddarlith yn Ffestiniog, ar 'Beth yw y Beibl," wedi cael *ychydig o gymmeradwyaeth.*" Ie, *ychydig*, mae hyny yn llawer i'r *Rhedegydd* gyffesu.

Y Carnarvon "Herald" sydd yn rhoddi i ni yr olwg gywiraf ar bethau mewn cyssylltiad a chyfarfodydd y Dr. G. Rhydd hanes dau gyfarfod yn Mhorthmadog. Pasiodd yr un nos Sul yn dawel; ond yn y cyfarfod nos Fawrth codod Trindodwr ar ei draed ac anerchodd

Dr. G. mewn yspryd mor gynhyrfus, fel yr oedd yn gwbl annealladwy i'r *reporter*, ac ni ddywedir fod neb arall wedi ei ddeall. Pan aeth Dr. G. allan, dylynwyd ef gan y rabl yn hwtio ac yn gwawdio nes iddo gyrhaedd ei *lodgings* yn 22 Snowdon St. Yr oedd pobl *respectable* yn cywilyddio oblegyd ymddygiad y bobl hyn, ac aeth llawer at y Dr. i ddadganu eu cydymdeimlad dwys ag ef.

Da genym ddeall fod y Dr. yn parhau yn galonog. Rhyfedd fel y mae yspryd erlid yn aros, onide? Dichon y gallai Darwin ei esponio. Dr. Griffiths yw heretic y gogledd heddyw, ond Howell Harris oedd yn y ganrif o'r blaen. Beiwn y rhai a erlidiasant y cenadon yn Madagascar—yn China—yn Llydaw, &c. Beiwn y Pabyddion am erlid y Protestaniaid yn amser Mari. Beiwn yr Eglwys Sefydledig am erlid anghydffurfwyr yn amser y 2000.—Wn i a ydyw yr adnod hon yn y Beibl a ddarllenir gan y brodyr erlidgar yma? "Felly yr ydych yn tystiolaethu am danoch eich hunain, eich bod yn blant i'r rhai a laddasant y proffwydi." (Matt. xxiii. 31).

Da genym hefyd feddwl mai yr ychydig ac nid y lliaws sydd yn achosi yr aflonyddwch. Daw y rhan amlaf yn nghyd i wrando beth sydd gan Dr. Griffiths i'w ddywedyd, ac yna i farnu drostynt eu hunain— i brofi pob peth a dal yr hyn sydd dda. Nid oes dim gorfodaeth ar neb i dderbyn syniadau ydynt yn annerbyniol ganddo.

Deallwn fod pleidlais unfrydol wedi ei basio yn H.D.C., Aberdar, a hefyd yn Mhontypridd, yn condemnio ymddygiad gwarthus yr erlidwyr yn Nghaernarfon, ac yn dadgan cydymdeimlad a'r Dr. a'r dymuniad o Dduw yn rhwydd iddo yn ei amddiffyniad o ryddid a phob gwirionedd. Mae y Carnarvon *Herald* wedi cyhoeddi y bleidlais, ac felly bydd cyfleusdra i'r erlidwyr i'w ddarllen neu i glywed am dano.—*Gohebydd.*

BETH YW ANWIREDD? (I'R PLANT).

Un bore yr oedd Harry bach yn yr ardd yn trolio ei gylch. Yr oedd hyny wedi ei wahardd iddo o'r blaen, ond fe allai iddo anghofio. O'r diwedd tarawodd ei gylch ar draws blodeuyn ac a'i torodd. Yr oedd wedi clywed ei dad yn dywedyd ei fod yn gwerthfawrogi y blodeuyn hwnw yn neillduol, yn fwy nag un blodeuyn yn yr ardd. Ac ebe Harry, "Bydd fy nhad yn digio'n dost, ond 'does 'mo'r help yn awr. O na buaswn wedi peidio dwyn y cylch i'r ardd o gwbl." Ar hyny dyna ei fam yn dyfod i'r ardd ac yn dywedyd, "Diar i mi, mae y gwynt wedi tori y blodeuyn." "Nid y gwynt," ebe Harry, "mi a'i torodd." "Chwi, Harry! sut y gallech wneyd y fath beth, oddieithr i chwi fyn'd drosto a'i sangu?" "Trolio fy nghylch oeddwn, ac aeth ar draws y blodeuyn." "Fe ddeydodd eich tad wrthych am beidio dwyn eich cylch i'r ardd." "Do, mam, ac y mae'n edifar iawn genyf." "Felly finau, Harry, gan y bydd eich tad yn flin iawn o golli y blodeuyn. Yr oedd

yn ei brisio yn fawr." Ar hyn aeth mam Harry i fewn i frecwest, ac yr oedd Harry yn ei dylyn, pan ddaeth y garddwr newydd heibio. "Beth, Mr. Harry, pa eisieu oedd i chwi ddeyd eich bod wedi tori y blodeuyn. Pe daliasech eich tafod, buasai'ch mam yn meddwl mai'r gwynt a'i torodd, a byddech chwithau'n dianc pryd o dafod. "Ydw i byth yn dweyd celwydd, John," ebe Harry. "Nid dweyd celwydd fase hyny, syr. Fase dim eisieu i chwi ddeyd gair. A fase hyny ddim yn deyd celwydd." "Base'n dra thebyg. Mae'n llawn cynddrwg twyllo â deyd celwydd. A phe base mam yn meddwl mai'r gwynt dorodd y blodeuyn, base'n cael ei thwyllo." "Be waeth am hyny?" ebe John, "fase fe ddim yr un peth a phe basech yn gosod y bai ar rywun arall. Dweyd oeddwn I, er eich mwyn chwi, Mr. Harry; er mwyn arbed tafod drwg, dyna i gyd. Ond os nad yw waeth genych chwi, wel, pob peth o'r goreu." "Ydw i'n malio dim am hyny, John, ond y mae'n ddrwg iawn genyf dori'r blodeuyn; ond baswn yn gwneyd y drwg yn ddau gwaeth pe twyllwn fy nhad gyda llaw." "Mwmialodd y garddwr rhyngddo a'i hun, mewn ton siomedig, gan ddweyd fod rhai yn fwy neis na doeth, a phan ar gychwyn i ffwrdd, clywodd lais yn ei alw yn ol. Tad Harry oedd yno, y tu arall i'r clawdd. Yr oedd wedi clywed pob gair, ac yr oedd yn awr yn dyfod i fewn trwy'r glwyd. "'Rwy'n falch iawn, Harry, fod genych ddigon o synwyr i ddweyd y gwir. Y gwir yw y goreu a'r ardderchocaf o'r rhinweddau. Mae'r sawl a lyno wrth y gwir yn sicr o barch. Buasai'n well genyf fi golli pob blodeuyn yn yr ardd na chael fy machgen yn ceisio fy nhwyllo. Mae'r twyllwr, pa un ai drwy air neu weithred, yn euog o gelwydd. Nid oes dim yn fwy *mên* na mwy gwael. Ni chadwa' i'r un dyn o gylch y ty, os na allaf drysto ei air. Felly, John, yr ydych i 'madael ar unwaith. Ac yn awr, Harry, ni awn i mewn i frecwest."

C. F.

A YW CRISTIONOGAETH YN FETHIANT?

Yn un o newyddiaduron dyddiol Llundain, yn ddiweddar, mae dadl frwd wedi bod yn cael ei chario yn mlaen ar y pwnc,—A yw Cristionogaeth yn fethiant? Nid wyf yma am ddwyn ger bron eich darllenwyr y gwahanol resymau a ddygid yn mlaen gan y gwahanol bleidiau dros eu gosodiadau: o blegyd yr oedd gwahanol farnau ar y pwnc hwn, fel ar bob pwnc arall; rhai yn gadarnhaol, ereill yn nacaol; rhai yn eithafol (ar un ochr neu'r llall); ereill yn gymmedrol. Ac nis gall y ddadl, credaf, lai na gwneyd llawer iawn o les; gall fod yn foddion i ddihuno y rhai cysglyd—i agoryd llygaid llawer ydynt, hyd yn hyn, wedi byw yn y tywyllwch. Ac felly yn y blaen.

Mae'n llawer iawn o beth fod dadl ar bwnc o'r natur hwn yn bossibl. Ychydig amser yn ol byddai yn anmhossibl, hyd y nod yn y ganrif bresenol; ac mewn rhai manau (efallai yn y rhan fwyaf o fanau), byddai yn anmhossibl etto. Nid wyf yn gwybod am un newyddiadur

yn Nghymru (Cymraeg wrth gwrs) a fentrai adael i ddadl o'r natur hon gael ymddangos yn ei golofnau. Ychydig amser yn ol byddai yn waith peryglus i unrhyw ddyn i bwyntio ei fys at anmherffeithderau yn Nghristionogaeth, heb gael ei hwtio a'i yru allan o bob cymdeithas. Ac y mae yn arwydd dda iawn fod dydd gwell ar wawrio ar y byd crefyddol—fod dadl ar bwnc o'r fath hwn yn cael ymddangos ar dudalenau un o'r newyddiaduron mwyaf dylanwadol yn y wlad. Mae hyn yn dangos fod yr yspryd ymchwiliadol yn dechreu gweithio ei ffordd i'r byd crefyddol. Nid yw dynion bellach mor barod ag oeddynt i dderbyn eu syniadau crefyddol oddiar wefusau'r offeiriad a'r pregethwr heb ofyn iddynt eu hunain a ydynt yn wir. Mae dynion wedi bod yn chwilio i fewn i bobpeth mewn cyssylltiad â materion ereill; ond, hyd yn hyn, mae'r mwyafrif wedi boddloni ar gredu yr un fath a'r offeiriad a'r pregethwr. Ond bellach mae yma yspryd newydd yn dechreu gweithio yn y gymdeithas ddynol mewn perthynas i faterion crefyddol.

Yn awr, A yw Cristionogaeth yn fethiant? Dichon fod y gofyniad yn ymddangos yn un hynod; etto, mae yn anmhossibl i un dyn o feddwl ymchwilgar beidio meddwl am dano weithiau. Mae edrych yn ol dros dudalenau hanesiaeth Gristionogol, a gweled y fath erchyllderau sydd wedi eu gwneyd yn ei henw,—y tudalenau duon sydd yn britho'r hanes hwn,—ar wynebau y rhai yr ydym yn gweled enwau yr holl luoedd sydd wedi gorfod dyoddef yn mhob dull a modd dan law dynion a broffesent Gristionogaeth,—mae hyn oll yn peru i ni weithiau ofyn o ddifrif y gofyniad uchod.

Onid yn enw Cristionogaeth y darllenwn fod yr holl ferthyron wedi cael eu gosod wrth yr ystanc, neu eu gosod i farwolaeth mewn dulliau ereill? Onid yn enw Cristionogaeth y darllenwn ni fod dynion wedi cael eu herlid o herwydd dal syniadau croes i'r lluaws,—y gosododd Calfin Servetus i farwolaeth,—yr erlidiwyd Theodore Parker gan Undodiaid America, ac ereill, ac y crewyd yr holl dwrw a'r terfysg yn Nghaernarfon yr wythnos o'r blaen yn erbyn cenadwr Undodaidd? Nid oes eisieu helaethu ar hyn. Ond rhaid i ni gyfaddef, pan awn i farnu Cristionogaeth, a defnyddio y farn gyffredin am Gristionogaeth fel safon ein barn, nas gallwn yn briodol beidio d'od i'r casgliad fod Cristionogaeth yn fethiant.

Cyn ffurfio y farn uchod am lwyddiant neu aflwyddiant Cristionogaeth, dylid yn gyntaf ystyried beth yw Cristionogaeth, ac yna edrych allan a yw'r hyn sydd yn cael ei alw yn Gristionogaeth heddyw yn deilwng o'r enw mewn gwirionedd. Os gwnawn ni hyn, credaf y cawn ni allan ddau beth, o lleiaf. Yn gyntaf, nad yw yr hyn a dderbynir heddyw fel Cristionogaeth gan y mwyafrif ond megys corff heb fywyd —ond megys Paganiaeth wael o'i chymharu â gwir Gristionogaeth,—Cristionogaeth Iesu Grist. Yna, yn ail, nad yw gwir Gristionogaeth erioed wedi cael prawf ond yn unig ar raddfa gyfyng,—llawer rhy gyfyng i'w gwneyd yn allu diwygiadol nerthol drwy bob rhan o gymdeithas. 'Does dim eisieu dweyd, yn y fan hon, beth yw (neu oedd) Cristionogaeth Iesu Grist. Nis gall neb sydd yn gallu rhyddhau ei hun oddiwrth bob rhagfarnau pleidiol a sectol, ac yn darllen bywyd

Iesu Grist, ac yn ei ddeall, beidio deall hefyd beth yw gwir Gristionogaeth.

Yn awr, ynte, a ni yn deall beth yw gwir Gristionogaeth,—Cristionogaeth Iesu Grist,—trown at Gristionogaeth fel y mae yn cael ei phroffesu yn Rwsia, yn yr Yspaen, ac yn holl Ewrop; o blegyd y mae holl wledydd Ewrop (ac eithrio un) a'u penaethiaid yn Gristionogion mewn proffes. Trown at Gristionogaeth fel y mae yn cael ei phroffesu gan y mwyafrif yn y wlad hon,—yn Lloegr, yn Nghymru (ac yn Nghaernarfon hefyd),—trown at y gwahanol arddangosiadau hyn o Gristionogaeth, a gofynwn i ni ein hunain beth yw ein barn onest am dani? A yw yn werth ffwdanu yn ei chylch? Ai nid gwell yw ei gadael i fyned i ebargofiant, a cheisio am rywbeth arall gwell yn ei lle? A yw Cristionogaeth ddim yn fethiant? Wel, os mai dyma yw Cristionogaeth, y mae yn fethiant, ac yn haeddu bod. Nid yw y rhan fwyaf o'r Gristionogaeth sydd yn y byd yn awr ond rhith; ac y mae y Gristionegaeth sydd yn haeddu'r enw heb erioed gael ei threio ond ar raddfa gyfyng. Pe bai Cristionogaeth Iesu Grist yn cael ei threio heddyw ar yr un raddfa ag y mae yr hyn a elwir yn Gristionogaeth yn cael ei threio, nid hyn fyddai drych y byd heddyw. Byddai'r holl dlodi, y caledi, y caethiwed, a'r erligdigaeth sydd yn y byd heddyw wedi eu hysgubo ymaith er's llawer dydd. Pe bai mwy o yspryd Cristionogaeth Iesu Grist i'w gael yn y byd heddyw, byddai holl freninoedd Ewrop yn gweithio am eu goreu i wella cyflwr eu deiliaid, ac i ymlid ymaith yr yspryd gwrthryfelgar, yr hwn sydd yn bresenol yn llethu, yn lladd, ac yn bwyta bywyd pob cenedl yn holl Ewrop. Gellid helaethu llawer yn yr un cyfeiriad ar bethau sydd yn d'od yn agosach atom ni yn y wlad hon, ond gadawaf hyny o waith i'r darllenydd.

Mae yn ddiamheu fod yn rhaid i lawer o'r hyn a elwir yn awr yn Gristionogaeth ddarfod. Mae wedi dechreu yn barod. Y mae yn haeddu hyn; o herwydd y mae yn rhwystr ar ffordd blaen-fynediad yr hil ddynol. Ond nid yw yspryd crefydd Iesu Grist i ddarfod,—yr yspryd oedd yn ysprydoli ei holl fywyd pan ar y ddaear. Mae hwn i barhau cyhyd ag y bydd dyn yn parhau; ac er i seremoniau gwag, i ddall-bleidiaeth sectol, ac i hunanoldeb yn awr ac eilwaith ei guddio o'r golwg, etto, nid yw ond dros amser felly. Bydd pob cam, pob twyll, pob anfoesoldeb, pob caethiwed, yn peru iddo wneyd ei ymddangosiad mewn rhyw gyfeiriad neu gilydd.

E. D.

LLYGAD Y DYDD.

Gwedi dod mae Llygad y Dydd—i'n lloni
Ambell un drwy'r maesydd;
Tua'r nef troi yn ufydd
Ei ben bach drwy bob hin bydd.

—Dewi Wyn o Essyllt.

NODYNAU GWASGAROG.

LLYTHYR ABRAHAM LINCOLN, GYNT PRIF LYWYDD YR U.D.A.

Yr oedd rhai yn fynych yn cymmeryd arnynt i ddywedyd nad oedd Lincoln ddim yn credu yn Nuw nac yn Nghrist. Tebyg iawn nad oedd yn coleddu y syniadau poblogaidd ar y pwnc; ond gallwn feddwl ein bod yn teimlo curiadau calon grefyddol yn y llythyr canlynol a gyfeiriwyd ganddo at Eliza P. Gurney, boneddiges o enwad y Crynwyr, dyddiedig 4, Medi 1864:

"Barchus Gyfaill,—Nid wyf wedi anghofio, tebyg nad anghofiaf byth, yr achlysur pwysig pan y darfu i chwi a'ch cyfeillion dalu ymweliad a mi ryw fore Sabbath, tua dwy flynedd yn ol; a'ch llythyr caredig a ysgrifenwyd tua blwyddyn cyn hyny, nid aiff byth o'm cof. Yn yr oll eich amcan oedd cryfhau fy hyder a'm ffydd yn Nuw. Yr wyf yn ddyledus iawn i bobl Gristionogol y wlad yma am eu gweddiau a'u dyddanwch parhaus a chysson, ac i neb yn fwy nag i chwi. Mae amcanion yr Hollalluog yn berffaith, a rhaid iddynt lwyddo, er i ni farwolion camsyniol fethu eu canfod yn eglur yn mlaenllaw. Yr oeddym wedi gobeithio am derfyniad i'r rhyfel dychrynllyd hwn yn hir cyn hyn, ond Duw wyr oreu, ac y mae wedi trefnu yn wahanol. Cydnabyddwn eto Ei Ddoethineb Ef a'n camsyniad ein hunain. Yn y cyfamser rhaid ini weithio o ddifrif, yn ol y goleuni goreu mae wedi roddi ini, gan hyderu wrth weithio felly y tueddbena yr oll yn nghyfeiriad yr amcan mawr y mae Efe wedi ordeinio. Yn sicr y mae Efe wedi bwriadu rhyw dda mawr i ddeilliaw oddiwrth y gyflafan ofnadwy, y fath nas gallai un marwol ei wneud, nac un marwol ei rwystro. Y mae eich pobl chwi, y Cyfeillion, wedi cael ac yn parhau i gael profedigaeth chwerw. Mewn egwyddor ac mewn ffydd yn wrthwynebol i bob rhyfel a gormes, nis gallant ond gwrthwynebu gormes trwy ryfel. . . . I'r sawl ydynt wedi apelio ataf ar sail cydwybod, yr wyf wedi gwneud, ac mi barhaf i wneud, y goreu y gallaswn a'r goreu y gallaf, yn ol llais fy nghydwybod fy hunan, o dan fy llw i'r gyfraith. Nid wyf yn amheu nad ydych yn credu hyn, ac os yn ei gredu caf dderbyn eto, ar ran ein gwlad ac ar ran fy hunan eich gweddiau at ein Tad Goreu yn y Nefoedd.—Eich Cyfaill Diffuant,

"A. Lincoln."

MR. REES THOMAS, GREEN PARK, LLANDYSSUL.

[Er Cof.]

Pwyllog iawn, llawn callineb—oedd ef,
Heb ddim hunanoldeb;
A'r hwn ni fu o'r wyneb
I dreio gwneyd drwg i neb.

Gwarnant Williams.

OLYNIAETH APOSTOLAIDD.

Fel hyn y darfu i Tomos Wiliam un tro osod allan yr athrawiaeth uchod mewn ymddyddan ag offeiriad o Eglwys Loegr: "Y gwahaniaeth cydrhyngom yn mherthynas i'r alwad i'r weinidogaeth yw hyn: Yr ydw i'n credu fod dyn wedi ei alw i bregethu, os gall e bregethu, Yr ydw i'n credu fod dyn wedi ei alw i fod yn ôf, os gall e wneuthur hoel neu bedol; yr ydych chwithau yn credu ei fod wedi ei alw, os ydyw wedi disgyn oddiwrth Tubal Cain!"—ac yr oedd hynyna yn sicr yn taro yr hoel ar ei chlop.

GOWN CYSGU.

Yr oedd gan athraw enwog fachgen bach, pedair oed, yr hwn nid oedd erioed wedi bod mewn gwasanaeth crefyddol oddieithr yn y capel annybynol. Un tro dygwyddodd fod perthynas i'r athraw yn gwasanaethu yn eglwys y plwyf; ac o barch aeth yr athraw yno a'i fachgen bach gydag ef. Aeth pob peth yn y blaen yn weddaidd, hyd nes i'r gweinidog yn ei wisg wen, wneuthur ei ymddangosiad, pan y gofynodd y gwr bach i'w dad mewn syndod mawr, "A ydyw ewythr Joseph yn cysgu yma?" Yn amlwg, credai y bach fod ei grys nos am dano.—Olywsom am un arall yn dywedyd wrth ei rieni wrth ddychwelyd adref o'r eglwys, "Mai dyna'r tro cyntaf iddo ef weled pregethwr yn pregethu yn ei grys."

LLYFR EMYNAU NEWYDD.

Casgliad yw ar gyfer cyfarfodydd neillduol perthynol i'r Undodiaid, ac wedi ei gyhoeddi dan olygiaeth Dr. Griffiths, ac ar draul y "British and Foreign Unitarian Association." Cynnwysa 47 o emynau mewn 24 o dudalenau. Ar yr amlen ceir Cyffes Ffydd a all fod yn ddyddorol i ddarllenwyr Yr Ymofynydd. Eiddo y Parch. W. Copeland Bowie ydyw, ac mae'n darllen fel yma:

Duw.—Creda Undodwyr yn undod, cyfiawnder, a chariad Duw. Ategir y grediniaeth hon gan reswm a chydwybod, a chan brofiadau dyfnaf y dynion goreu.

Iesu.—Creda Undodwyr mai efengyl Tadoldeb Duw a Brawdoldeb dyn, fel y dysgwyd hi gan Iesu, yw crefydd yn ei ffurf uchaf a phuraf, a bod bywyd Iesu yn cyflwyno yr esiampl ardderchocaf i ddynion.

Y Beibl.—Creda Undodwyr i Dduw siarad wrth ddynion yn yr oesau gynt drwy broffwydi, apostolion a dynion sanctaidd, a'i fod yn parhau i siarad wrth bob enaid gwrandawgar drwy drefn y bydysawd, geiriau y doethion, ac esiampl y da.

Iachawdwriaeth.—Creda Undodwyr y ca y rhai adawant eu meddyliau a'u gweithredoedd drwg, ddymunant yn ddidwyll am ysprydol-

iaeth ac arweiniad dwyfol, ac a ymegniant i arwain bywydau pur ac anhunangar, dderbyniad i deyrnas Dduw yn y presenol ac yn y dyfodol.

Gwyddoniaeth.—Creda Undodwyr y dylai darganfyddiadau Gwyddoniaeth ddiweddar a chynydd gwybodaeth ddwyn llawenydd ac nid braw i ddynion. Fel y symudir cyfeiliornadau ac ofergoeliaeth, hyrwyddir dyfodiad crefydd uwch a phurach.

Nef.—Creda Undodwyr y darpara Duw fywyd uwch a chartref hapusach i'w holl blant; y bydd i wirionedd rhywle, rhywbryd, rhywfodd, fuddugoliaethu ar dwyll; ac y bydd i gariad fwrw allan bob ofn.

CAN Y GWEITHIWR.

Rhowch fwyell! caib, neu raw, Neu big i dori rhyd,
Cryman i fedu, pladur i ladd, Neu ffust i ddyrnu'r yd;
A dyma freichiau sydd Yn barod at y gwaith,
O foreu hyd nos, mewn ffrith neu ros, Heb achwyn dim ychwaith.

Rhowch daradr dur i mi, Neu forthwyl haiarn trwm,
I ddarnio'r graig yn geryg man, I bontio lled y cwm;
I soddi pwll am lo, A'i dori, wele fi;
Neu gweithiaf yn falch ar odyn galch, Neu'r lle ddewisoch chwi.

Os caf fi'm dogn o waith, Ni raid i unrhyw rai
I ofni byth y bydd i mi Yspeilio'u tir na'u tai;
Na gofyn ffafr i neb, Boed fawr neu fach ei fri;
Fy mara a'm cig heb neb yn ddig, Yw'r cyfan a geisiaf fi.

Fy ngwaith, fy nhal, fy mwyd, A'm dynol freintiau im';
Fy iechyd, O Dduw, a hawl i fyw, Heb grefu ar ddyn am ddim;
O am gael byw fel hyn Heb deimlo gormes dyn!
Cael dilyn fy ngwaith, heb ddiolch fel caeth, I neb ond i Dduw ei hun.

—*Cuhelyn*, 1862.

EIN CYMMANFAOEDD CANU.

Carwn, mewn modd neillduol, alw sylw ein cantorion, ac ereill yn Sir Fynwy a Sir Aberteifi, at ein Cymmanfaoedd canu. Wrth holi, yr ydym yn deall fod amryw o'n heglwysi yn diwyd ymgynnefino a'r program, tra mae ereill wedi syrthio i fath o ddifaterwch cysglyd, ac hyd yn hyn heb ddechreu ar y gwaith. Gan fod y *rehearsals* cyntaf wrth y drws, mae yn holl-bwysig i bob capel fod ar ei eithaf i ddysgu'r

tonau erbyn adeg ymweliad Mr. Eiddil Jones, yr arweinydd, gan mai ynfydrwydd fai iddo ef gymmeryd y drafferth o ddyfod, dyweder i Sir Aberteifi, i gael fod y corau yn hollol anmharod i'w dderbyn. Os oes rhai eglwysi—gobeithiwn yn fawr nad oes un—heb ddechreu ar y program, a gaf fi wasgu arnoch y ddyledswydd o wneyd eich goreu, ac i ymaflyd yn eich gwaith o ddifrif? Mae ein Cymmanfaoedd wedi bod yn llwyddiant mawr: na adawer i'r nesaf, ar un cyfrif, fod yn eithriad; ond ni ddaw llwyddiant heb gydweithrediad a ffyddlondeb. Byddwn yn ffyddlon, a gochelwn esgeuluso unrhyw foddion tuag at ddwyn ein gwaith i derfyniad gogoneddus.

J. Hathren Davies.

YMYFED.

Fe baid anifeiliaid pan fo'n—diofal,
Nid yfant ond digon;
Ond rhyfedd briw agwedd bron,
Ffud anhawdd na phaid dynion.

Richard Phylip.

Y METHODYN YN CERYDDU YR ANNYBYNWR.

Syr,—Yn rhifyn Chwefror o'r *Drysorfa* (Fethodistaidd) fe ddywedir fod yr Annybynwyr yn gyffredin yn cyfeirio eu gweddiau at Iesu ac nid at y Tad, er fod yr Ysgrythyrau yn bendant yn dysgu mai y Tad yw gwrthddrych addoliad. Gobeithiwn y gwrandawa yr Annybynwyr ar gerydd y *Drysorfa*, ac y darllenant eu Beibl i'r fath bwrpas, fel y cymmerant addysg yr Iesu ei hun ar y mater, gan gyfeirio eu gweddiau fel y gwnelai'r Iesu at y Creawdwr, ac nid at un creadur.

Q. Q.

BWRDD YSGOL LLUNDAIN A'R DRINDOD.

Mae rhyw hurtyn, sydd yn fwy ei sel na'i wybodaeth, wedi ceisio gan aelodau Bwrdd Ysgol y Brif Ddinas i basio y penderfyniad hwn: —"Fod cyfarwyddyd i gael ei roddi fod i'r plant, pryd bynag yr eir trwy yr addysg grefyddol am y dydd, a'r adnodau o'r Beibl ydynt yn cyfeirio at Grist, gael ei dysgu yn bendant mai Duw yw Crist, ac y dylid rhoddi iddynt y cyfryw eglurhad ar athrawiaeth y Drindod ag a fyddo yn gydweddol á'u gallnoedd." Wel, wel, rhaid fod athrawiaeth y Drindod ar ei choesau olaf, a'r profion drosti yn druenus o weinion,

cyn y rhaid cael ffyn baglau fel hyn i'w dal hi'r lan. Meddyliwch am haerllugrwydd dynion a broffesant fod yn ddynion dysgedig yn myned i wario miloedd o bunnau yn y flwyddyn, ïe, arian a delir gan bobl a goleddant amrywiol syniadau, i wasgu athrawiaeth anysgrythyrol ar blant bach na wyddant well Yr ydym yn credu yn onest fod nifer lluosog o wyr yn aelodau ar Fyrddau Ysgol a ddylent fod yn yr ysgol eu hunain. Mae yn warthrudd ar addysg y canrif hwn i bennodi y cyfryw ffyliaid i ofalu am dani. Nid yn unig mae rhai o oleuadau dysglaer Llundain ar dân ar bwnc y Drindod, ond penderfynant, hefyd, i fynu i'r plant wyliau ar y dyddiau a gedwir yn sanctaidd gan yr Eglwys, megys y Iau Dyrchafael, y Llungwyn, ac ereill. Ond mae un aelod wedi datgan ei fwriad i fyned yn mhellach na hyn, a chadw yn wyl hefyd ddydd rasys Derby. Arferwn edrych i'r lan at Lundain, ond yr Arglwydd a'n gwaredo rhag syrthio byth i blith dynion sy'n euog o gefnogi y fath ffwlbri disylwedd.

C. D.

EIN HEGLWYSI YN NGHYMRU.

Nid yw rhagolygon ein capeli ni ar hyn o bryd yn addawol iawn yn Nghymru. Trwy farwolaeth, ac achosion ereill, mae nifer lluosog o'n pwlpudau wedi dyfod yn weigion, a'r cynnulleidfaoedd wedi eu taflu ar eu hadnoddau eu hunain, ond am nad yw ein deadelloedd ni yn lluosog, hyd y nod y goreu o honynt, ofnwn nad yw yn bossibl, i'r rhan amlaf o honynt, wneuthur fawr cynnydd heb fugail i'w blaenori a'u porthi Collasom yr addfwyn a'r diymhongar Aeron Thomas, o'r Cwmbach, ac fe erys praidd ei ofal heb neb i'w gwasanaethu ar y Suliau; ac wele, etto, Mr. Rees, o Rydygwin, wedi ymuno a'r mwyafrif, ac wedi gadael dwy gynnulleidfa yn amddifad o weinidog da a defnyddiol. Heblaw hyn mae Pontypridd, yr eglwys Seisnig yn Aberdar, a Gellionen, heb un gweinidog arnynt. Beth wneir? Mae y maes yn helaeth, ond y gweithwyr yn anaml. Gobeithiwn yn fawr y tyr y wawr o ryw gyfeiriad, ac y denfyn Duw etto weithwyr i'w winllan, i lanw y bylchau, ac i gadw llusern yr hen wirioneddau anwyl y bu ein tadau mor weithgar drostynt yn Nghymru am ryw dymhor etto.

A. B.

GWEDDI AM OLEUNI!

"Mor hyfryd yw'r goleuni!" ebai'r doethor,
A threngai Goethe'n sibrwd "Goleu ragor!"
A gweddi Ajax oedd am wasgar cymyl
A'i rhwystrai i wel'd ei elyn yn ei ymyl.

O ! moes in' oleu ragor ! 'rym yn ddeillion !
Tywallt oleuni'n ddydd ar led ein calon !
Yn amlwg lewyrch rhag i'n henaid bechu—
A gwawl rhy amlwg i'n pechodau lechu !

O ! mwy o wawl o fewn a llai tu allan
I bob un wel'd priodol fai ei hunan,
A throi ei drem o'i ol i chwith olygu
Aml i beth i'w feio a'i ddirmygu !

Dysg, awen, celf, a phregeth a gwyddoniaeth
Oleuant ond ar gyrau ein naturiaeth ;
Mae conglau dirgel dyfnion yn ein henaid
Na welsant etto erioed oleuyn canaid !

Athroniaeth ? nad athronyddem weithiau
Ar ddrwg ein calon a'i hepiliog feiau ;
Rhifyddiaeth : ïe, dysgu'r gamp o'u rhifo ;
Enwedig dysgu'r rheol anhawdd hono
Sy'n *tynu ymaith* : ac anghofio medru
Yr afreolus reol sy'n chwanegu.

INDEX.

Syr,—Rhyfedd ydyw y ffyrdd drwy y rhai y daw y meddwon i afael o'r cwrw. Yr hwn sydd ganddo arian, gwna eu cymmeryd, wrth gwrs, i'r tafarndy, a gwna eu gwario yno yn llawer mwy boddlon nag y gwaria hwy yn siop y gwerthwr bwydydd, neu am ddillad i'w wraig a'i blant. Gwna ei flys ef mor barod i aberthu unrhyw beth er ei fwyn, fel na wel y peth mwyaf yn ormod i'w wneuthur. Eithr, os na fydd arian gan y meddwyn, cymmer ei gob at *wncwl* ; cymmer y pwys siwgwr ; yfa ei ddodrefn allan o'i dy ; ceir gweled y wraig yn cymmeryd y dorth fara i'r tafarndy yn gyfnewid am y diodydd. Arddengys y meddwyn lawer iawn o allu a dyfais er gallu porthi ei chwant : gesyd holl alluoedd ei feddwl ar waith i borthi ei flys. Ond y ffordd fwyaf hynod a glywais o geisio diod feddwol ydoedd eiddo ffermwr yn Sir Gaerfyrddin, yr hwn a gymmerai fochyn o'r twlc, a hwyad o'r llyn, ac ednod o'r dowlod, er mwyn porthi ei flys ; ai a hwynt dan ei gesail tua'r tafarndy, a diamheu y cai farchnad rwydd iddynt yno. Rhyfedd yr hyn wna dyn pan fyddo ei flys yn feistr arno : gwertha ei amgylchiadau, gwertha ei gorff, a gwertha ei enaid, er mwyn porthi ei flys. Nid gwaeth ganddo ef dori calon gwraig a phlant ; nid gwaeth ganddo ef newynu ei deulu, ond iddo gael modd i borthi ei flys.

Yr hyn sydd yn hynod i mi ydyw fod y trueiniaid meddw hyn yn cael marchnad i'w holl nwyddau gan y tafarnwr, gan nad pa beth fyddont ; mae efe yr un mor barod i dderbyn mochyn, neu ffowlyn, neu hwyad, neu wydd, neu dwrci, am y ddiod, a gwna torth y wraig feddw,—gwna elusenau roddwyd i gardotyn—y tro yn rhagorol i'r

tafarnwr. Nid gwaeth ganddo ef pa beth ga, ond iddo gael gwerth am y ddiod.

Dywedir yn fynych am urddasolrwydd ein tafarnwyr,—am y cymmeriad uchel sydd iddynt am ddynoliaeth a charedigrwydd, ond ar yr un pryd, derbyniant arian ymborth gwragedd a phlant gan y gwr a'r tad meddw yn berffaith ddirwgnach. Dyna ddywedai tafarnwraig wrthyf y dydd o'r blaen pan wnawn ymdrechu gwasgu ati yr annhegwch o werthu diodydd i'r meddw: "O, meddai, mae eu harian hwy yr un mor dda i mi ag arian y dyn sobr; hwynt-hwy ydynt y ffyliaid am eu bod yn gwario eu harian, ac nid myfi am eu derbyn."

Dyma sefyllfa foesol ein tafarnwyr. Gwnant hwy gymmeryd arian pwy bynag a ddaw, gan nad pa mor annheg y bydd hyny, a chodant eu penau i fyny, gan ofyn yn syber iawn, "Ai myfi ydyw ceidwad fy mrawd?" Dygir dinystr y fasnach feddwol ar ein gwlad drwy gyfuniad y gwerthwr diodydd a'r yfwr—ariangarwch ar un tu, a blys ar y tu arall: a dylem wneyd pob peth ag sydd yn ein gallu i rwystro i'r ddau hyn ddod at eu gilydd, a thrwy hyny ddwyn y fath ddinystr ar ein gwlad. Dylem ddefnyddio pob moddion cyfreithlawn er symmud ymaith feddwdod o'n gwlad, moddion cyfreithiol, moddion moesol, moddion crefyddol, a pheidio petruso un foment i aberthu lles bydol yr ychydig i les bydol a thragwyddol y lluaws. Ac i'r tafarnwr ei hunan—bendith fawr fyddai dinystr y fasnach feddwol, oblegyd drwyddi gwna ddinystrio ei hun.—Yr eiddoch,

D. Ff. Dafis.

MYFYRDOD PAN AR FIN TRIUGAIN OED.

Wyf 'nawr yn ymyl tri'gain oed,
A'm troed ar fin y bedd;
Ymadael raid yn fuan iawn
A cheraint gwych eu gwedd.

'Rol croesi afon angeu erch,
Mae gobaith im' gael gwel'd fy merch
Mewn byd tu draw i'r bedd,
A chyda hi'n dragwyddol fyw,
Yn nghwmni Iesu Grist a Duw,
Mewn gwynfyd, hawddfyd, hedd.

E. T., Cwmbach.

MYFYRDOD UWCH BEDD FY MERCH.

O fy anwyl, fywiol eneth,
Suddo wnaeth yn angeu erch,
Do, yn mlodau' dyddiau hoew,
Yr hawddgaraf, siriol ferch.

Gadael wnaeth rieni tirion,
Brodyr a chwiorydd mad,
Heb un gobaith am eu gweled
Byth yn ol yn nhy ei thad.

Ond, mae Tad gwell na'r daearol
Yn gofalu drosti hi;
Oes, fy ngeneth fwyn, rinweddol,
Yn y wlad nefolaidd fry.

E. T, Cwmbach.

EIN PWLPIDAU GWEIGION.

Syr,—Mae yn drist meddwl am sefyllfa bresenol lliaws mawr o'n heglwysi, ac y mae galw dwys am ffyddlondeb o bob cyfeiriad fel y gellir pasio gyda gradd o lwyddiant trwy y cyfyngder. Dylai un gynulleidfa ganiatau help i gynulleidfa arall lle byddo yn bossibl, a dylai'r gynulleidfa sydd heb weinidog wneuthur pob ymdrech i gynnal y cyfarfodydd yn rheolaidd. Os na cheir gan aelod bregethu, ceisier un i ddarllen pregeth o'r Ymofynydd, a bydded pob aelod yn ffyddlon gyda ei gyd-gynulliad.

Undodwr.

Manion ac Hanesion.

Dywedir fod wyth neu naw o bwlpudau Undodaidd yn wag yn Nghymru yn awr. Mae hwn yn fater sobr, ac yn galw am sylw.

Gwyl Ddewi.—Rhyfedd fel mae y gwewyr yspryd Cymreig yn codi o flwyddyn i flwyddyn. Da genym hyn, er gwybod mai Pabydd i'r carn oedd Dewi, ac er gwybod hefyd mai ffugiol yw y rhan fwyaf o i hanes. Nid yw enw Dewi druan ond y *figure head* ar ffrynt y llong. Mae gwladgarwch Cymru heddyw yn eangach na'r sect y perthynai Dewi iddi, er nad fe allai yn ddigon eang eto i gymmeryd Pelagius i fewn, er fod Pelagius heddyw yn nes at syniad y Cymro cyffredin. Credai Pelagius (dyna ei heresi mawr, os wyf yn cofio yn iawn) am blant bach, "Mai eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd."

Merthyr Tydfil.—Fe wnaiff Undodiaid Cymru pan glywant, gydymdeimlo â'r Parch. Nestor R. Williams, yr hwn sydd newydd golli ei fab a'i unig blentyn, yn 21 oed.

Pontypridd.—Da genym ddeall fod gwasanaeth y Parch. J. Fisher Jones yn y lle yma yn ystod mis Chwefror yn troi allan yn dderbyniol iawn.

Llwyddiant.—Y mae yn ddywenydd genym weled enw Miss Muriel Marles-Thomas yn mhlith yr ymgeiswyr llwyddiannus, ac yn y dosparth blaenaf, yn yr arholiad *Matriculation* o Brif Ysgol Llundain. Eiddunwn iddi lwyddiant etto yn y dyfodol.

Chwefror 10, cynnaliodd Ysgol Sul Caeronen ei gwyl de flynyddol eleni etto yn Wern Cottage, ar y dydd uchod. Nid gormod yw dweyd fod y danteithion yn dda, a chyflawnder o honynt. Ac os na chafodd pob un ei lwyr ddiwallu arno ef ei hunan y bu'r bai. Yn yr hwyr cawsom gwrdd llenyddol rhagorol. Nid ydym yn amheu nad dyma y goreu o'r oll a gawsom yma. Aeth yr adroddwyr a'r cantorion drwy eu gwaith mewn modd canmoladwy. Yn mlaen etto, gyfeillion.

Marwgofion.

Rhagfyr 29, 1892, David Thomas. Ochr-'rhos, Caio, yn 74 mlwydd oed. Cafodd gystudd maith, ond dyoddefodd yr oll yn amyneddgar a dirwgnach Genedigol oedd o ardal Llanwnen. Bu yn was ffyddlon am flynyddau gyda'r diweddar John Rees, Cilgell, Pencarreg. Yr oedd o ran ei farn dduwinyddol yn Undodwr selog, ac yn dderbyniwr cysson o'r Ymofynydd, a darllenai ef gyda phleser tra'n alluog i ddarllen dim. Treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd priodasol mewn cymmydogaeth lle'r oedd ei enwad ei hun yn anmhoblogaidd, ond yr oedd iddo air da gan bawb o'i gydnabod o bob enwad. Ar sefydliad yr achos Undodaidd yn Mrondeifi, bu am beth amser yn mynychu y lle'n achlysurol, ond yr oedd yr oedran wedi rhedeg yn mhell, a'r ffordd yn ffaith, fel y gorfu arno yn groes i'w ewyllys roddi i fyny. Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono yn Ffaldybrenin, Caio, ar yr 2il o Ionawr, 1893, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. H. Jones, gweinidog y lle. Teimla ysgrifenydd y llinellau hyn yn flin na fyddai yn gwybod am yr angladd, ac er fod yr hin yn arw, a'r ffordd yn mhell, byddai yn ei hystyried yn anrhydedd i gael rhoddi ei bresenoldeb ynddo, a chreda na fyddai hyn yn groes i deimlad ac ewyllys yr ymadawedig a dywedyd y lleiaf. Mewn cydymdeimlad â'i weddw a'r perthynasau ereill yn eu galar, nid oes genym yn bresenol ond canu'n iach i'r hen frawd syml a dirodres, ac edrych yn y blaen at foreu y cyfarfod mewn gwlad well y tu hwnt i'r llen.

Ionawr 11, 1893, yn 26 oed, Richard Lloyd Jones, Llwynygroes, Llanwnen. Claddwyd ef yn Llanwnen y dydd Sadwrn canlynol. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. Mr. Morris, periglor y plwyf. Cyn methu, oherwydd afiechyd, yr oedd yr ymadawedig mewn gwasanaeth yn y National and Provincial Bank of England yn Llanbedr, ac yn gymmeradwy iawn yn ei alwedigaeth. Yr oedd yn un o deulu parchus Llwynygroes, ac o dylwyth haedd-barch y Neuaddfawr a Chastell-du Traddodwyd y bregeth angladdol yn Eglwys Llanwnen y Sul canlynol, a choffhawyd yn barchus am y cyfaill ieuanc yn ei bregeth gan weinidog Capelygroes prydnawn yr un Sul. Er hiraeth y mae gobaith, a buddugoliaeth yn sicrwydd ffydd ein Harglwydd Iesu Grist.

Ionawr 19, yn 12 oed, Sarah Jones, Bwlchyffynnon, Llandyssul. Claddwyd hi y dydd Mawrth canlynol yn Pantdefaid. Yn y tŷ gwasanaethwyd gan y Parch. Mr. Jenkins, offeiriad y plwyf, ac yn y capel ac ar lan y bedd gan T. T., y gweinidog.

Ionawr 22, yn 16 oed, Rachel Jones, Llanfair Hill. Y dydd Mercher canlynol hebryngwyd yr ymadawedig i'w bedd yn mynwent Capelygroes. Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

Ionawr 25, yn 81 mlwydd oed, Mary Davies, Pantyrodyn, Llanfihangelararth, Sir Gaerfyrddin. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn nghladdfa'r teulu yn mynwent Eglwys Llanwnen. Cyflawnwyd y gwasanaeth angladdol arferol yn y ty gan J.D. Alltyplaca, ac yn yr eglwys a'r fynwent gan y Ficar. Yr oedd wedi bod yn aelod ffyddlon o Eglwys Alltyplaca am flynyddoedd lawer, a chyhyd ag y parhaodd ei hiechyd, anfynych y byddai'n absenol o'r gwasanaeth, er fod ganddi tua naw milldir o ffordd i gerdded. Cyfyngwyd hi i'w gwely am y 15 mlynedd diweddaf o'i hoes gan gystudd, yr hwn a ddyoddefodd yn dawel a dirwgnach. Parhaodd i deimlo dyddordeb mawr yn yr achos yn Alltyplaca drwy'r blynyddoedd hirion, ac anfonai ei chyfraniadau yn gysson tuag at ei gynnal. Erys ei henw mewn coffadwriaeth barchus gan ei phlant a llu mawr o berthynasau a chyfeillion.

Ionawr 27, yn 79 mlwydd oed, Mary Evans, Maesygoleu, gynt Rhydyfydrwydd, Llanwenog. Claddwyd y Mawrth canlynol yn nghladdfa newydd Llwynrhydowen. Cyflawnwyd y gwasanaeth yn y ty gan J.D. Alltyplaca, darllenwyd rhanau o'r Ysgrythyr yn y capel gan y Parch. W. J. Davies, y gweinidog, a gorphenwyd drwy weddi ar lan y bedd gan J.D. Gadawodd yr hen chwaer hon un mab i alaru'n ddwys ar ei hol. Nerth a gaffo i alaru mewn ffydd a gobaith o gael cwrdd etto yn yr eilfyd mawr.

Ionawr 27, yn 80 oed, Jane Jones, Pengelli, Llandyssul. Cymmerodd ei hangladd le y dydd Mawrth ar ol hyny. Rhoddwyd hi mewn bedd yn mynwent Pantdefaid, a phregethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog, T. T. Yr oedd yr ym-

adawedig yn un o aelodau hynaf cynnulleidfa Pantdefaid, ac yn un o'r ffyddlonaf tra y gallodd gyrchu i'r addoliad.

Ionawr 31, yn 68 oed, David Davies, Glanrhydydre', gynt Trafle, Llanwenog, a chladdwyd ef yn St. John's, Llandyssul, y dydd Gwener canlynol. Pregethwyd yn y tŷ annedd gan y Parch. T. T.

Ionawr 31, yn 61 mlwydd oed, Evan Thomas, Morgan Row, Cwmbach. Yn marwolaeth ein cyfaill rhagorol hwn cafodd, nid ei deulu yn unig, golled fawr, ond hefyd yr eglwys o'r hon y bu yn aelod ffyddlon am flynyddau meithion. Ni fu yn hir yn glaf, er y gellir dweyd ei fod yn dihoeni yn raddol yn ystod y ddwy flynedd olaf y bu byw, oblegyd ni fu byth yr un fath wedi iddo gladdu ei anwyl ferch, yr hyn a effeithiodd yn enbyd arno. Un o ragorolion y ddaear oedd Evan Thomas, yn briod a thad na cheir ei gyffelyb yn aml, ac yn un y buasai yn well ganddo gymmeryd cam na'i roddi. Gadawodd weddw a thwr o blant ar ei ol i wylo eu colled fawr, a gobeithio y bydd i'r dyddanwch hwnw a wnaeth eu tad mor dawel a siriol yn ei gystudd olaf, fod yn eiddo iddynt hwythau. Gwelir ar ei ol hefyd fwlch mawr yn yr eglwys, oblegyd gan nad pwy oedd yn llesghau, yr oedd efe yn ffyddlon, a chan nad pwy oedd yn absenol, yr oedd efe yn ei le bob amser. Anhawdd hebgor y fath ddyn, a pha le y ceir rhai i lanw ei le. Bu yn ddosparthwr o'r *Ymofynydd* am yspaid hir. Dydd Sadwrn claddwyd ei weddillion yn *cemetery* Aberdar. Darllenwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan y Parch. D. M. Davies (A.), Cwmbach, a gweddiwyd gan y Parch. J. Hathren Davies. Gwasanaethwyd yn y *cemetery* gan y Parch. R. J. Jones, M.A., yr hwn hefyd a draddododd y bregeth angladdol. Ffarwel, gyfaill anwyl, am enyd fer.

Chwefror 5, yn 36 oed, ar ol nychdod blynyddau lawer, James Evans, Llwyncalennig, ger Llanpumsaint, Caerfyrddin. Hebryngwyd ef i'w fedd yn nghladdfa'r tylwyth yn Pantdefaid y dydd Mercher canlynol. Darllenwyd a gweddiwyd yn Llwyncalennig gan y Parch. Mr. Lloyd, offeiriad y plwyf, a phregethwyd yn Pantdefaid gan y Parch. T. T. Bydded i'r weddw a'r plant sydd ar ol alaru, ond nid heb obaith. Mae'r ergyd yn drwm, ond ymdrechant gael nerth i ddal i fyny.

Chwefror 6, David Davies, gwehydd, Cwm Morgan, ger Castellnewydd Emlyn, yn 88 oed. Yr oedd y dyn mwyaf cofus a feddai y plwyf, a geilir dywedyd fod rhan helaeth o hanes y gymmydogaeth wedi myned i ebargofiant drwy ei farwolaeth. Bu yn weithgar iawn trwy ei fywyd hyd o fewn ychydig fisoedd i'w farwolaeth. Yr oedd o gymmeriad da, a phob amser yn rhodio wrth liw dydd. Bu yn aelod ffyddlon yn ystod blynyddoedd diweddaf ei oes gyda'r Undodiaid yn y Pantteg. Claddwyd ei weddillion marwol y dydd Iau canlynol yn Rehoboth, pregethodd y Parch. Jenkin Williams oddiar y geiriau a welir yn Matt. v. 46. Cafwyd pregeth ragorol, yn llawn newydd-deb i Drindodiaid y gymmydogaeth, gan fawr obeithio y caiff effaith briodol arnynt, ac y meithrinant ef yn eu bywyd. Cafodd angladd dywysogaidd. Yr oedd iddo air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun. Bydded i bapyrau Unol Dalaethau America ac Awstralia gofnodi yr uchod, gan fod gan yr ymadawedig blant yn y ddwy wlad bellenig. —*J.B., Ll.*

Chwefror 11, yn 48 oed, bu farw David Thomas, Ty-uchaf Maesymeillion, Llandyssul. Claddwyd ef y dydd Mawrth canlynol yn Pantdefaid. Pregethwyd gan y Parch. T. T. Dyn cryf, iach oedd y brawd ymadawedig, ond cafodd ei dori lawr gan ddolur trwm yn mhen ychydig ddiwrnodau wedi cael ei gymmeryd yn glaf. Gadawodd fam oedranus i alaru ar ei ol, yn nghyd a brawd a chwaer, a llawer o berthynasau. Dyn geirwir iawn oedd Dafydd, meddai pawb oeddynt yn ei adnabod. Boed mwy o'i fath yn y byd.

Chwefror 15, yn 47 oed, Mary Jones, Maesymeillion, Llandyssul, ar ol cystudd trwm, ond nid maith. Claddwyd hi yn mynwent Carmel y dydd Sadwrn canlynol. Pregethwyd gan y Parch. T. P. Phillips, Horeb. Gadawodd yr ymadawedig briod ac wyth o blant mewn galar dwys ar ei hol.

Chwefror 16, o'r *influenza*, Benjamin, unig blentyn Mr. a Mrs. Nestor Williams, gweinidog yr Undodiaid yn Merthyr, yn 21ain oed. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'r rhieni trallodus yn eu galar dwys. Dyddanwch y Nefoedd fo iddynt.

Chwefror 19, y Parch. William Rees, gweinidog parchus Rhydygwin a Chiliau Aeron. Ceir manylion yn ein nesaf.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.